WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Penfro

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Rydym hefyd wedi cynghori Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) ar yr hyn y gallai ystyried ei wneud er mwyn gwella ei brosesau a'i wasanaethau cynllunio gwelliant ymhellach.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Non Jenkins a Helen Keatley, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pa fath o ardal yw Sir Benfro? | 04 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn cael ei reoli'n dda? | 05 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? | 08 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn gwasanaethu pobl yn dda? | 11 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn cefnogi pobl mewn angen? | 12 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn helpu pobl i ddatblygu? | 17 |
| A yw Cyngor Sir Penfro yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? | 20 |
| Beth y dylai'r Cyngor ei wneud? | 25 |


**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn | 26 |
| Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro | 28 |
| Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol | 30 |
| Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Penfro | 31 |
| Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Penfro | 33 |
| Atodiad 6 - Cyfeiriadau | 35 |

# Pa fath o ardal yw Sir Benfro?

1 Sir wledig yw Sir Benfro sy'n ffinio â'r môr ar dair ochr, Ceredigion i'r gogledd-ddwyrain a Sir Gaerfyrddin i'r dwyrain. Mae oddeutu 45 y cant o'i phoblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol gyda'r 55 y cant sy'n weddill yn byw mewn cymunedau gwledig. Y sir hon yw un o'r siroedd mwyaf gorllewinol ac ymylol yng Nghymru. Mae ganddi arwynebedd daearyddol o 1,590 $km^2$ sy'n cyfrif am 7.7 y cant o gyfanswm arwynebedd Cymru. Yn 2009, roedd tua 117,400 o bobl yn byw yn Sir Benfro. Mae'r boblogaeth yn tyfu yn ystod yr haf, wrth i lawer o bobl ymweld â threfi arfordirol fel Dinbych y Pysgod, Saundersfoot a dinas gadeiriol Tyddewi.

2 Dengys amcangyfrifon o 2009 fod 18.6 y cant o'r boblogaeth o dan 16 oed; a bod 21.3 y cant dros 65 oed. Mae hynny'n golygu bod gan Sir Benfro gyfran uwch o bobl hŷn na chyfartaledd Cymru, sef 18.3 y cant. Gallai'r ffaith fod pobl ifanc o'r ardal leol yn gadael y sir a mwy o bobl hŷn yn symud i mewn i'r sir greu heriau sylweddol i'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf. Ar y cyfan, mae poblogaeth Sir Benfro wedi tyfu bedwar y cant ers 2001 sy'n golygu mai hon yw un o'r siroedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

3 Mae Llinell Landsger, sy'n rhedeg o Fae Sain Ffraid yn y gorllewin i Fae Caerfyrddin yn y dwyrain, yn cynrychioli ffin ieithyddol a diwylliannol draddodiadol. Mae oddeutu 18 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw uwchben y Llinell Landsger yng ngogledd y sir.

4 Mae Sir Benfro yn ymddangos yn gymharol ffyniannus i ryw raddau ond ceir ardaloedd o amddifadedd, yn arbennig yn ardal Doc Penfro. Mae amddifadedd hefyd mewn rhai rhannau o gefnwlad wledig Sir Benfro. Mae'r sir yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth, er bod amaethyddiaeth yn bwysig o hyd a bod diwydiannau petrocemegol a nwy naturiol wedi datblygu ar lannau Aber Cleddau.

5 Ceir rhagor o wybodaeth am Sir Benfro a'r Cyngor yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
1,590 $km^2$
/////////////

poblogaeth
117,400
/////////////

siaradwyr cymraeg
18%
/////////////

# A yw Cyngor Sir Penfro yn cael ei reoli'n dda?

6 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth iawn. Ym mis Mehefin 2010 lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad (sef Asesiad Corfforaethol) sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion am drefniadaeth y Cyngor a sut y caiff ei drefnu a'i reoli. Nodir y pethau a ddywedwyd wrth y Cyngor yn yr adroddiad hwnnw yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr adroddiad llawn ar Asesu Corfforaethol mae ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk. Daeth yr adroddiad i'r casgliad cyffredinol fod arweinyddiaeth sefydlog gref, a diwylliant o welliant parhaus, yn debygol iawn o gynnal gwelliant yn y dyfodol.

7 Mae'r sefydlogrwydd hwn yn golygu bod y Cyngor wedi cael digon o amser i benderfynu'n iawn beth y maent am ei wneud i wella pethau a gwneud cynnydd wrth wneud y pethau hynny. Maent wedi meithrin diwylliant lle mae staff y Cyngor yn ymrwymedig i wneud eu gorau a cheisio gwella gwasanaethau ar gyfer pobl Sir Benfro. Am fod yr ymrwymiad hwn i wella yn rhan mor greiddiol o ddiwylliant y Cyngor, rydym yn hyderus y byddant yn parhau i wella, er gwaethaf yr heriau sydd o'u blaenau.


8 Mae’r Cyngor wedi meithrin y diwylliant hwn o welliant parhaus er mai dyma ble ceir y gyfradd treth gyngor (yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi’i osod ar gyfer eiddo band D) isaf yng Nghymru ers amser, ac mae’n parhau i fod yr isaf o’r 22 o awdurdodau yng Nghymru ar gyfer 2010-11.

9 Ers i ni gyhoeddi’r Asesiad Corfforaethol, mae mwy o bwysau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o’u holl adnoddau.

10 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi trosglwyddo cyfrifoldebau rhwng adrannau ac mae wedi gwneud rhai penodiadau newydd, gan gynnwys Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant newydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn dda gyda'i adrannau a sefydliadau eraill i weld sut y bydd yn cynnal ac yn gwella gwasanaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan dorri costau ar yr un pryd. Mae'n gweithredu yn effeithiol i sicrhau bod staff yn cael cyflogau teg, yn unol â'r ddeddfwriaeth ar gyflog cyfartal ac mae wedi gwella ei systemau rheoli staff. Drwy ddatblygu ei staff ei hun, mae tîm dysgu a datblygu corfforaethol y Cyngor yn parhau i ddarparu rhaglenni hyfforddi sy'n cynrychioli gwerth da am arian drwy ddefnyddio gwybodaeth am anghenion dysgu a datblygu pob gwasanaeth ac ar draws y sefydliad cyfan. Yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol, dywedom fod y Cyngor, ar y cyfan, yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu a defnyddio staff, gyda dull cadarn o fynd i'r afael â staff sy'n perfformio'n wael a hyrwyddo trefniadau staffio darbodus. Mae proses Adolygu Perfformiad a rhaglen Rheoli Sir Benfro y Cyngor yn cael eu mireinio ymhellach i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid. Mae hyn yn cynnwys asesu ymddygiad rheolwyr ac arfarniadau 360 gradd.

11 Y gost a gyllidebwyd gan y Cyngor ar gyfer gwasanaethau (gwariant, ac eithrio incwm megis rhenti, ffioedd a chostau) yn 2009-10 oedd £327.5 miliwn, a £326.8 miliwn yn 2010-11. Mae Arddangosyn 1 yn dangos bod 40 y cant o’i wariant cyllidebol ar wasanaethau plant (addysg a gofal cymdeithasol plant a theuluoedd), oddeutu 17 y cant ar wasanaethau tai ac oddeutu 14 y cant yr un ar wasanaethau cymdeithasol oedolion a diwylliant, yr amgylchedd a gwasanaethau cynllunio.

## Arddangosyn 1: Gwariant a gyllidebwyd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor




12 Mae cyllideb y Cyngor wedi cael ei rheoli'n dda erioed. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb drwy ddarparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r ffaith bod y Cyngor wedi rheoli cyllidebau yn effeithiol yn golygu bod ganddo sail gadarn ar gyfer y dyfodol.

13 Cadarnhaodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Lythyr Blynyddol i'r Cyngor ar 29 Tachwedd 2010 fod datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2009-10 yn foddhaol a bod yr arian wedi'i wario yn briodol. Mae ei Lythyr Blynyddol ar gyfer 2010 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.[1]

14 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd Cyngor Sir Penfro yn gweld gostyngiad o tua £2.7 miliwn (1.7 miliwn y cant) yn yr arian refeniw a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £5.8 miliwn (3.58 y cant).[2] Dengys ffigurau Dangosol Llywodraeth y Cynulliad leihad mewn termau real yn arian refeniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

1 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hawl i weld cyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

2 Mae termau real yn golygu y caiff effaith chwyddiant ei ystyried. Mae llawer o wahanol ddulliau o fesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres datchwyddo GDP y Trysorlys.

15 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2014-15.

16 Mae'r gostyngiadau hyn yn unol â rhagdybiaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi datblygu'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn gwneud paratoadau synhwyrol i'w helpu i gyflawni arbedion ac i weithio'n fwy effeithlon. Mae wedi dewis peidio â chyhoeddi 'targed' arbedion hyd nes y caiff fwy o wybodaeth am lefelau ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei broses blaengynllunio ariannol gan sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael iddo yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

17 Mae'r Cyngor hefyd wedi lleihau'r swm y mae'n ei ordalu o ran budd-daliadau tai ac wedi cynyddu faint o ddyledion y mae'n eu hadennill, ac mae'n gwneud hynny am bris rhatach. Er bod yr ôl-ddyledion treth gyngor wedi cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, sef £1.226 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2010, dyma oedd y lefel isaf o dreth gyngor a oedd yn ddyledus fesul annedd drethadwy ym mhob un o 22 o gynghorau Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod casglu'r holl incwm a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen arno yn hanfodol i gynnal y gwasanaethau a ddarperir.

18 Mae'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad Asesu Corfforaethol. At hynny, mae’r Cyngor wedi cynyddu maint a chyflymder y newidiadau wrth wynebu'r heriau sydd i ddod gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ac aelodau ar yr un pryd; mae'n cydnabod yr angen i gyfleu sut y bydd y cynlluniau hynny yn gwella bywydau trigolion Sir Benfro.

# A yw Cyngor Sir Penfro yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei amcanion gwella. Ar gyfer 2010-11 penderfynodd Cyngor Sir Penfro ganolbwyntio ar 26 o amcanion. Nodir y 26 o amcanion yn Atodiad 5. Mae'r rhain yn cysylltu'n agos â'r rhai a nodir yng Nghynllun Cymunedol Sir Benfro a chaiff y cyfan eu dwyn ynghyd o dan yr un wyth thema, sef:

- Lles
- Yr amgylchedd
- Yr economi
- Y gymuned
- Tai
- Dysgu
- Mynediad
- Diogelwch

20 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella a'i gynlluniau i'w cyflawni cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Roedd y Cyngor ymhlith y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ei amcanion gwella, ym mis Mai 2010. Mae'r amcanion yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2010-11. Gall y cyhoedd ddarllen y cynllun hwn ar wefan y Cyngor yn ogystal ag ar bapur.[3]

21 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio adroddiad blynyddol ar ei gyflawniadau a'i gynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Felly, cyhoeddwyd yr Adolygiad Gwella (yr Adolygiad) gan y Cyngor ym mis Hydref 2010[4] i roi sylwadau ar ei berfformiad rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010.

22 Mae'r Adolygiad yn bodloni'r gofynion statudol ond gallai nodi sut yr eir i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynaliadwyedd yn gliriach. Mae'r Adolygiad yn dangos y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, sut mae'n cymharu â chynghorau eraill, yn ogystal â pha feysydd y bydd angen eu gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n disgrifio sut mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n anelu at gyflawni gwelliannau yn erbyn wyth thema'r Cynllun Cymunedol, sef Lles, yr Amgylchedd, yr Economi, Cymuned, Tai, Dysgu, Mynediad a Diogelwch.

23 Dangosir y data perfformiad ar wahân ac mae wedi'i gyflwyno'n glir gyda gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad yn dangos perfformiad, targedau a chymariaethau o'r flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol. Darperir sylwadau hefyd i esbonio perfformiad cyfredol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad a meysydd i'w gwella.

24 Mae'r Adolygiad yn ddisgrifiadol ac yn fanwl ac mae'n well na chynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwella blaenorol y Cyngor. Fodd bynnag, byddai'r Adolygiad wedi bod yn well pe bai ei gyflawniadau wedi'u cysylltu â'i feysydd ar gyfer gwella a'i ganlyniadau mewn ffordd gliriach a mwy amlwg.

25 Roeddem hefyd am sicrhau bod y Cyngor yn gwybod yn glir sut y bydd ei welliannau arfaethedig o fudd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ei gymuned. Gwnaethom edrych ar ei 26 o amcanion a chanfod y gallai rhai ohonynt fod yn gliriach mewn rhai ffyrdd ac y gallent nodi sut y byddent o fudd i bobl. Rydym hefyd yn cydnabod bod y

3 Gellir darllen Cynllun Gwella'r Cyngor ar ei wefan yn www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1566,1710&parent_directory_id=646

4 Gellir darllen Adolygiad Gwella'r Cyngor ar ei wefan yn www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1566,1782&parent_directory_id=646&id=21203&d1p1=1

Cyngor wedi dewis canolbwyntio ar agenda wella eang, er bod 26 yn nifer fawr o flaenoriaethau iddo ganolbwyntio arnynt a'u cyflawni. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wrthi'n gweithio i sicrhau bod ei amcanion gwella yn gliriach ac yn fwy penodol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo weithio ar ffyrdd o fesur ei effaith: sut mae'n perfformio o ran gwella bywydau pobl yn Sir Benfro. Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar waith i ddelio â materion a gwelliannau ar lefelau corfforaethol, adrannol a gwasanaeth, ac mae'n cydnabod bod angen iddo addasu'r fframwaith hwn i gynnwys gwahanol fathau o fesurau i ddangos sut mae'n effeithio ar fywydau pobl. Drwy wneud hynny, dylai adlewyrchu sut mae ei bartneriaethau a'i drefniadau cydweithio yn helpu i gyflawni ei ganlyniadau ac yn llywio bywydau pobl yn Sir Benfro.

26 Gwnaethom hefyd ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn cynnwys pobl leol, y rhai y mae'n cydweithio â hwy a'r rhai sy'n gweithio iddo, wrth benderfynu beth y dylai roi blaenoriaeth iddo. Gwelsom fod y Cyngor yn perfformio'n dda iawn o ran gofyn am safbwyntiau staff, dinasyddion, partneriaid a sefydliadau eraill, gan gynnwys ymgynghoriadau chwarterol â’i banel o ddinasyddion. Credwn y gallai’r Cyngor ddefnyddio'r holl wybodaeth hyn, a gesglir o amrywiaeth o ffynonellau, yn well er mwyn penderfynu beth yn union yw canlyniadau hyn. Bydd hyn yn ei helpu ymhellach i wneud penderfyniadau, gwelliannau, canfod arbedion a chadarnhau y caiff y canlyniadau dymunol eu cyflawni neu eu bod eisoes wedi’u cyflawni.

27 Mae canolbwyntio ar y cwsmer yn un o dair egwyddor allweddol y Cyngor, ac mae wedi'i sefydlu yn ei ddiwylliant corfforaethol a'i drefniadau ar y cyfan. Mae ganddo hefyd nodau clir a phenodol i wella profiad y cwsmer, gan gynnwys bodloni disgwyliadau rhesymol, darparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hwylus i'r cwsmer ac osgoi gofyn am yr un wybodaeth ddwywaith fel na chaiff y galw am wasanaeth ei drosglwyddo o adran i adran yn y sefydliad yn ddiangen.

28 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori effeithiol ar ôl ymgynghori'n eang ar ei amcanion gwella naill ai drwy fecanweithiau ymgysylltu sydd wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cymunedol neu drwy'r wefan. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod yr amcanion gwella'n adlewyrchu materion sy'n bwysig i Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddarparwyr gwasanaethau a chwsmeriaid gyfathrebu'n fwy rheolaidd a chyson i fesur cyfraddau boddhad ac i ddangos yn glir sut mae ymatebion cwsmeriaid yn dylanwadu ar wella'r ddarpariaeth o wasanaethau.

29 Fodd bynnag, ymhen dim o dro, efallai na fydd peth o'r wybodaeth a ddefnyddir ganddo yn gyfredol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio nifer o ffynonellau ymgynghori i lywio Cynllun Gwella a Chynllun Cymunedol eleni gan gynnwys adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd a phartneriaid ar ei Gynllun Cymunedol newydd – ymgynghoriad a gynhaliwyd ddechrau 2010. Hefyd, defnyddiodd y Cyngor safbwyntiau dinasyddion o’i arolwg trigolion o 2007 i lywio Cynllun Gwella a Chynllun Cymunedol eleni. Casglwyd y safbwyntiau hynny cyn y dirwasgiad ac mae'n bosibl bod syniadau a blaenoriaethau pobl wedi newid gryn dipyn. Er mwyn cydbwyso costau a manteision y math hwn o weithgarwch, mae’r Cyngor yn cynnal arolwg o’i drigolion bob pum mlynedd, ac mae’n bwriadu cynnal ei arolwg nesaf yn 2012.

30 Mae'r broses gwyno wedi'i sefydlu'n dda ac mae'r Cyngor yn delio ag ymholiadau cwsmeriaid yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen i bob gwasanaeth ddysgu o gwynion mewn ffordd gyson am nad yw'r broses eto yn systematig ar draws y Cyngor.

31 Ym marn y Cyngor, mae cyfathrebu mewnol yn hanfodol ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng ei wasanaethau a'i bartneriaid. Mae wedi sefydlu systemau i annog trafodaethau agored, awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i wasanaethau, ymrwymiad a pherchenogaeth.

32 Yn olaf, gofynnwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wneud yn well ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Ar y cyfan, credwn fod y Cyngor wedi gwneud gwaith da o ran gwella ei wasanaethau dros y blynyddoedd, ac mae'n gwybod ym mha feysydd y mae mwy o waith i'w wneud o hyd. Mae ei hanes yn hyn o beth yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau ariannol sydd o'i flaen a'r posibilrwydd y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd rhwng ariannu ei amcanion gwella a thorri costau.

33 Er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau, mae'r Cyngor yn asesu costau a manteision y gweithgareddau arfaethedig ac yn llunio achosion busnes i lywio penderfyniadau. Mae’r asesiadau a’r cynlluniau hyn yn ei helpu i benderfynu a fyddai opsiwn penodol yn rhoi gwerth am arian yn y byrdymor a'r hirdymor ac a yw'n canolbwyntio ar y cwsmer.

# A yw Cyngor Sir Penfro yn gwasanaethu pobl yn dda?

34 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd yn Sir Benfro. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau hyn yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau'n eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

35 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yn hyn mewn perthynas â'r agweddau hyn. Rydym wedi edrych yn fras ar bob un o'r 26 o amcanion. Byddwn yn edrych arnynt yn fanylach yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

36 Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

37 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae'r adroddiad hwn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

38 Yn 2009 roedd oddeutu 18 y cant o boblogaeth Sir Benfro yn gallu siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig yn llai na 26 y cant o boblogaeth Cymru, ac mae nifer y disgyblion a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf yn is na chyfartaledd Cymru. Yn 2009, 17.8 y cant o ddisgyblion a gafodd eu hasesu gan athrawon yn Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, a 12.7 y cant yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd y ddau ffigur hyn yn is na chyfartaledd Cymru.

39 Yn ddiweddar, cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chanfuwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau yn y Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Mae'r Cyngor wedi cael clod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy sicrhau bod dogfennaeth etholiadol Gymraeg ar gael ac am lunio gwefan ddwyieithog gynhwysfawr. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu darparu data cadarn ar sgiliau Cymraeg ei staff. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn disgwyl y bydd y gwaith o roi'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig a Strategaeth Sgiliau Iaith ar waith yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

# A yw Cyngor Sir Penfro yn cefnogi pobl mewn angen?

40 Dangosodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2008) fod gan Sir Benfro ddwy ardal sydd ymhlith y 10% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd lefelau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn 2007-08 yn debyg i gyfartaledd Cymru. Mae ffigurau hefyd yn awgrymu bod iechyd meddwl a lles pobl yn Sir Benfro yn debyg i gyfartaledd Cymru, a bod cyfradd gordewdra ymysg oedolion yn cynyddu.

41 Mae cyfradd y rhai a dderbyniwyd fel pobl ddigartref yn Sir Benfro wedi parhau i fod lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru rhwng 2001-02 a 2008-09. Fodd bynnag, yn 2009-10, gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn y maes hwn a gostyngodd y gyfradd yn sylweddol i fod o dan gyfartaledd Cymru. Er nad yw cynghorau'n adeiladu tai fforddiadwy, mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae o ran hwyluso'r gwaith o'u hadeiladu. Gostyngodd lefel y ddarpariaeth ychwanegol o dai fforddiadwy yn Sir Benfro yn 2008-09, ac roedd yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, cynyddodd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy'n sylweddol yn 2009-10 i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

42 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

43 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn bydd gan pob cyngor gynllun arolygu ac adolygu unigol. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

44 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

45 Mae gan wasanaethau oedolion y Cyngor amrywiaeth eang o gryfderau. Mae'r Cyngor yn sicrhau perfformiad da mewn gwasanaethau oedolion yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys amseroldeb asesiadau a threfnu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwaith o amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn effeithiol ac mae ganddo arbenigedd penodol yn y maes hwn. Mae rhagor o bobl hŷn yn cael help i aros yn eu cartrefi eu hunain ac mae rhagor yn cael taliadau uniongyrchol.

46 Fodd bynnag, mae rhai meysydd sydd angen eu gwella o fewn y gwasanaethau oedolion gan gynnwys yr angen i ddatblygu ymhellach y gwaith o reoli gofal. Mae hefyd angen gwella'r ffordd y caiff safbwyntiau defnyddwyr eu hystyried a'u defnyddio i wella gwasanaethau.

47 Ymhlith cryfderau'r gwasanaethau plant mae darparu amrywiaeth dda o wybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwasanaethau plant yn perfformio'n dda yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys ansawdd adroddiadau asesiadau plant ar gyfer mabwysiadu, dangosyddion allweddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dangosyddion o ran gwaith diogelu ac amseroldeb gweithdrefnau amddiffyn plant. Mae canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant sydd angen teuluoedd parhaol newydd.

48 Ymhlith y meysydd i'w gwella mewn gwasanaethau plant mae ansawdd asesiadau craidd ac asesiadau a darparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc. Mae lle hefyd i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n mapio angen nad yw'n cael ei ddiwallu ac yn asesu a yw anghenion plant a gaiff eu cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol ond na chânt eu hasesu yn cael eu diwallu yn y gymuned. Mae rhagor o broblemau gyda'r gwaith o fonitro ac adolygu gwasanaethau fel y gwasanaeth eiriolaeth a chynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

49 Ym mhob rhan o'r gwasanaethau i oedolion a phlant, mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder penodol. Mae enghreifftiau llwyddiannus o fentrau a rolau ar y cyd gyda siroedd eraill ynghyd â chefnogaeth gref i wasanaethau cymdeithasol gan gyfarwyddiaethau cynghorau eraill. Caiff y gwaith o recriwtio a chadw staff ei reoli'n dda, yn ogystal â'r arian corfforaethol. Ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu trefniadau comisiynu a chontractio mwy cadarn. Mae fframwaith sicrhau ansawdd sefydledig ar gyfer gwasanaethau plant. Mae'r Cyngor wrthi’n datblygu ymhellach ei drefniadau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad o fewn gwasanaethau oedolion.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella lles y sir?

50 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun er mwyn gwella lles trigolion Sir Benfro yw:

- byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael;
- byddwn yn hyrwyddo iechyd y cyhoedd a chyfleoedd i fyw'n iach;
- byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leihau effaith tlodi;
- byddwn yn cefnogi prosiectau a fydd yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu hintegreiddio;
- byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gennym.

51 Credwn mai dyma'r math cywir o amcanion gwella ar gyfer Sir Benfro gan eu bod yn cysylltu'n dda â'i blaenoriaethau ar gyfer gwella ei gwasanaethau, yn ogystal â hyrwyddo tegwch. Fodd bynnag, mae ystyr rhai o'r amcanion gwella hyn yn gliriach nag eraill. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddiffinio’n gliriach y canlyniadau mae’n gweithio tuag atynt.

52 Mae gan y Cyngor hanes da y gellir adeiladu arno o ran cyflawni'r amcanion hyn. Mae'n gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd ac eraill i barhau i wella ei wasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau iechyd lleol a gwasanaethau gwirfoddol i helpu i hyrwyddo iechyd da a chaiff nifer o'i swyddogion eu secondio i weithio i gyrff eraill am gyfnod. Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio i'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel

Dda. Arbrawf yw'r cydbenodiad hwn, ac mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir. Er bod y trefniant hwn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y rheini sy'n rhan o'r gwaith, ceir tystiolaeth ei fod yn dechrau gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Sir Benfro.

53 Daeth y gwaith a wnaethom i asesu gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl yng nghymuned iechyd Hywel Dda i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ers ein hadolygiad llinell sylfaen yn 2005, ond bod yr agenda wella wedi'i llywio'n bennaf gan gynymddiriedolaeth y GIG ac nad oedd yn adlewyrchu dull ehangach sy'n canolbwyntio ar y system gyfan.

54 Cyfrannodd y gwaith hwn at ein hadroddiad cenedlaethol,[5] a oedd yn asesu gwasanaethau tai i oedolion ag anghenion iechyd meddwl. Mae'r adroddiad cenedlaethol yn rhoi enghraifft o sut mae Cyngor Sir Penfro yn cynllunio gwasanaethau tai yn effeithiol ar y cyd â'i bartneriaid i bobl ag anghenion iechyd meddwl ac yn cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn nodi bod tîm Cefnogi Pobl a thîm Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro, ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd, yn cadw data ystadegol sy'n dangos effaith gadarnhaol yr agenda lles dros y chwe blynedd diwethaf o ran lleihau achosion o dderbyn oedolion ag anghenion iechyd meddwl i'r ysbyty. Roedd yr agenda yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y gymuned gan ddefnyddio arian Cefnogi Pobl, ac roedd y data yn llywio Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl y Cyngor a chyfeiriad strategol y gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anghenion iechyd meddwl yn Sir Benfro.

55 Mae gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer cefnogi plant, mewn llawer o achosion, yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru er iddynt fethu â chyrraedd rhai o'u targedau dros y flwyddyn ddiwethaf.

56 Mae ei wasanaeth sy'n helpu pobl oedrannus i fwy bywydau mwy annibynnol yn gwella hefyd. Mae nifer y bobl hŷn yn Sir Benfro yn cynyddu. Mae helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag mewn cartref nyrsio neu gartref gofal yn aml yn well i bawb. Mae'n well ar gyfer y bobl hŷn oherwydd gallant barhau i fyw'n annibynnol ac mae'n well ar gyfer y trethdalwr oherwydd mae cartrefi nyrsio a chartrefi gofal yn ddrutach o lawer.

57 Mae budd-daliadau tai a threth gyngor yn bwysig i bobl, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol gyfredol. Mae'r Cyngor yn prosesu hawliadau budd-dal yn gynt na'r rhan fwyaf o gynghorau eraill Cymru. Mae gan y Cyngor gysylltiadau da â Chanolfannau Cyngor ar Bopeth a fforymau eraill, gan gynnwys y Fforymau 50+, i helpu i ddatrys ac osgoi problemau i bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Mae'n cymharu ei hun â chynghorau eraill yn aml i sicrhau ei fod yn parhau i weithio'n effeithiol ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth da i bobl Sir Benfro y mae angen budd-daliadau arnynt.

58 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo roi grantiau ar gyfer cyfleusterau i'r anabl yn gyflymach ac yn fwy effeithlon i'r rheini sydd eu hangen. Mae'r Cyngor yn gwario £2.867 miliwn y flwyddyn ar addasu tai yn y sir i helpu pobl anabl i aros yn annibynnol. O'r ffigur hwn, caiff £2.288 miliwn ei fuddsoddi mewn grantiau i eiddo preifat a chaiff £0.579 miliwn ei wario ar addasiadau i dai Cyngor. Ar ddiwedd mis Medi 2010, roedd y Cyngor wedi gwario bron hanner ei gyllideb flynyddol ar addasiadau yn y sector preifat ac roedd yn rhagweld gorwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Drwy ddefnyddio'i wybodaeth am berfformiad yn effeithiol i nodi'r mater hwn,

5 www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Housing_Mental_Health_eng_web.pdf

mae'r Cyngor yn edrych ar ffyrdd o reoli'r gwasanaeth yn well ac mae wedi gwneud gwelliannau o ran perfformiad a sut mae'n asesu angen ac yn cydlynu'r ddarpariaeth o weithgareddau. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella sut mae'n gweithio gyda chontractwyr ac yn rheoli'r gwaith o gwblhau cynlluniau unigol a fyddai'n arwain at wasanaeth sy'n cynrychioli gwerth gwell am arian.

59 Cynhaliodd AGGCC arolygiad yn gynharach eleni o ba mor dda roedd cynghorau yng Nghymru yn diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Dangosodd yr arolygiad hwn bod y Cyngor yn diogelu ei oedolion yn dda, yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid ac yn darparu ymateb rheng flaen medrus a phroffesiynol er mwyn diogelu oedolion. Dywedodd fod angen i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau pwysig ynghylch sut y bydd yn parhau i ymateb yn effeithiol gan ddelio â nifer gynyddol o atgyfeiriadau.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella ei gymunedau?

60 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun ar gyfer cefnogi ei gymunedau yw:

- byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau bywiog a chynaliadwy;
- byddwn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

61 Mae'r amcanion gwella sy'n cwmpasu'r materion hyn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu ei blaenoriaethau ac yn hyrwyddo tegwch. Ond mae'r Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd i nodi'r hyn y maent yn ei olygu a'r hyn y maent am ei gyflawni'n gliriach.

62 Ceir cymunedau difreintiedig yn Sir Benfro, ac mae dwy ward etholiadol ymysg y 100 cymuned dlotaf yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ddau amcan gwella sy'n berthnasol i'r thema Gymunedol yn ymateb i'r anghydraddoldebau cydnabyddedig a'r problemau cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu nifer o bentrefi a threfi ledled Sir Benfro. Nodwyd bod angen adnoddau Cymunedau yn Gyntaf ar ddwy ardal (Llanion a Monkton), ac mae cyllid Ewropeaidd wedi'i ddefnyddio gan Planed i helpu i nodi anghenion cymunedau unigol ac i gefnogi'r gwaith o lunio prosiectau i ddiwallu'r anghenion hynny.

63 Mae holl adrannau'r Cyngor yn gweithio i adfywio cymunedau ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda llawer o sefydliadau eraill i gynnal a chefnogi tua 520 o brosiectau cymunedol. Mae llawer o'r gwaith hwn i gefnogi cymunedau yn cael ei reoli gan Uned Adfywio Cymunedol y Cyngor. Yn ymarferol, ni all yr uned hon gyflawni'r gwaith ar ei phen ei hun, ac mae'n gweithio'n dda gyda llawer o sefydliadau eraill gan gynnwys adrannau a gwasanaethau eraill y Cyngor a’r Tîm Ewropeaidd, grwpiau gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Er ei fod yn ymrwymedig i weithio gydag eraill, nid yw'r Cyngor bob amser yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am wneud beth ym mhob un o'i brosiectau. Nid yw'n glir ychwaith ynglŷn â pha wahaniaeth y mae'n ei wneud mewn gwirionedd o ran gwella cymunedau, er ei fod yn cydnabod nad yw mesur a gwerthuso canlyniadau gweithgarwch adfywio cymunedau yn hawdd.

64 Er bod y prosiectau yn amlwg yn fuddiol i gymunedau lleol a bod targedau adfywio cymunedol yn cael eu cyrraedd, gallai'r Cyngor wneud yn well o ran cynllunio, monitro a rheoli'r prosiectau, pa mor effeithiol y maent, a defnyddio gwybodaeth i ddangos a yw pobl ar eu hennill o ganlyniad iddynt. Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid a chredwn y gallai weithio hyd yn oed yn agosach â hwy i ganolbwyntio ar y prosiectau pwysicaf a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

65 Mae gan y Cyngor hanes da o ddenu arian o'r tu allan er mwyn adfywio cymunedau. Ond, oherwydd y sefyllfa economaidd, mae'n debygol y bydd gwaith codi arian o'r fath yn mynd yn anoddach.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella tai yn y sir?

66 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun yw:

- byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cynyddu nifer y tai addas sydd ar gael;
- byddwn yn parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor.

67 Mae'r ddau amcan gwella hyn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu ei blaenoriaethau ac yn gwella ansawdd ei gwasanaeth tai ac yn hyrwyddo tegwch. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r amcanion fod yn gliriach o ran sut y bydd pobl ar eu hennill o ganlyniad i'w cyflawni a sut y caiff hyn ei fesur. Gwyddom fod prinder tai fforddiadwy yn Sir Benfro fel llawer o siroedd eraill yng Nghymru, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru.

68 Mae'r Cyngor wedi ariannu swydd Galluogwr Tai Gwledig yn rhannol i nodi cynlluniau tai fforddiadwy a'u rhoi ar waith mewn cymunedau gwledig. Er i gyfradd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Benfro ostwng yn 2008-09 i fod yn is na chyfartaledd Cymru, cododd yn sylweddol yn 2009-10 i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae’r Cyngor wedi sicrhau 123 o unedau tai fforddiadwy newydd yn 2009-10, gyda 12 ohonynt ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro. Mae'r Cyngor yn wynebu her fawr o ran helpu i barhau i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael. Mae wedi nodi angen i ddatblygu 2,913 o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion o ran tai yn y sir ac mae'n gweithio gyda'i bartneriaid mewn Byrddau Iechyd Lleol i fodloni'r galw cynyddol hwn. Mae’r Cyngor yn ddibynnol ar bartneriaid cymdeithasau tai a Grant Tai Cymdeithasol er mwyn sicrhau tai fforddiadwy newydd, a dim ond dwy uned o’r 123 o unedau a ddatblygwyd drwy gytundebau Adran 106[6] a sicrhawyd yn ystod 2009-10. Bydd y Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer adeiladu tai newydd yn lleihau yn y dyfodol ac felly bydd yn anoddach i'r Cyngor gyflawni'r gwelliant a fwriedir.

69 Mae'r Cyngor yn rhagori ar y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru o ran gwella ansawdd Tai Cyngor lleol. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod angen iddo barhau i wneud mwy i gynnwys ei denantiaid drwy wella Tai Cyngor a gwella'r ffordd y mae'n cynllunio, yn rheoli'r ddarpariaeth ac yn mesur cynnydd o ran gwella ei gartrefi. Mae hefyd angen iddo sicrhau bod ei drefniadau caffael yn parhau i reoli effaith contractwyr lleol a chenedlaethol sy'n cael eu diddymu. Yn ystod y misoedd diwethaf mae tri o gontractwyr y Cyngor wedi cael eu diddymu ac felly mae pwysau ychwanegol ar y Cyngor i wneud gwelliannau i eiddo.

70 Mae'r Cyngor wedi helpu i leihau digartrefedd yn y sir a gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl ddigartref. Am yr ail flwyddyn yn olynol, ni wnaeth y Cyngor ddefnyddio unrhyw lety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd digartref yn ystod 2009-10. Mae'r arfer hwn yn arwydd da am fod llety gwely a brecwast yn ddrud ac nid yw'n ateb da ar gyfer teuluoedd sydd â phlant. Dim ond traean o awdurdodau lleol Cymru a berfformiodd gystal â hyn y llynedd.

6 Mae Adran 106 (A106) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu awdurdod cynllunio lleol i wneud cytundeb neu rwymedigaeth cynllunio sy'n gyfreithiol rwymol gyda thirfeddiannwr wrth roi caniatâd cynllunio. Gelwir y rhwymedigaeth yn Gytundeb Adran 106. Mae'r cytundebau hyn yn ffordd o ddatrys neu fynd i'r afael â'r materion angenrheidiol er mwyn sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Cânt eu defnyddio'n gynyddol i gefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy, ac yn gyffredinol bydd angen i ddatblygiad tai newydd o faint penodol gynnwys cyfran benodol o dai fforddiadwy.

# A yw Cyngor Sir Penfro yn helpu pobl i ddatblygu?

71 Yn Sir Benfro, mae 13.6 y cant o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng yn raddol ers 2001 ac mae'n is na chyfartaledd Cymru. Roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau lefel uwch[7] yn 2009 yn 26.9 y cant, sy'n is na chyfartaledd Cymru sef 29.6 y cant. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi codi ers 1999 ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

72 Mae maint y dosbarthiadau yn ysgolion cynradd Sir Benfro yn llai na'r cyffredin (23.2 o ddisgyblion o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 24.4), tra bo gan ei hysgolion uwchradd (hyd at 16 oed) ddosbarthiadau o'r un maint â'r cyffredin bron â bod, sef 22. Mae gan 17 y cant hawl i brydau ysgol am ddim yn Sir Benfro, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 18.9 y cant. Fodd bynnag, mae cyfradd y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim yn cynyddu'n gynt yn Sir Benfro (3 y cant yn 2009-10) na chyfartaledd Cymru (1.1 y cant yn ystod yr un cyfnod). Cyfran y disgyblion sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (Prydeinwyr nad ydynt yn wyn) yw 2.9 y cant, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 6 y cant.

73 Mae Estyn, sef arolygydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwyr Addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal. Rhoddir crynodeb o ganlyniadau arolygiadau Estyn yn y paragraffau isod.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella dysgu yn y sir?

74 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun yn ei Gynllun Gwella er mwyn gwella dysgu yn y sir yw:

- byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella lefelau sgiliau yn Sir Benfro;
- byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau addysg a ddarperir gennym;
- byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol.

75 Mae'r tri amcan gwella hyn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu ei blaenoriaethau, yn gwella ansawdd ei gwasanaeth addysg ac yn hyrwyddo tegwch ac effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor yn gweithio i wneud yr amcanion hyn yn gliriach a chredwn y gallai egluro rôl bwysig partneriaid yn well o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol. Mae ystod eang o resymau cymdeithasol ac economaidd sy'n egluro pam fod disgyblion o gefndiroedd penodol yn gwneud yn well nag eraill. Ni all y Cyngor fynd i'r afael â'r problemau hynny ar ei ben ei hun, a bydd angen iddo rannu'r cyfrifoldeb am gyflwyno'r amcan hwn ag eraill.

76 Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu addysg ac yn gwario mwy o arian fesul disgybl na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn. Nododd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn yn 2008 bod gwasanaethau addysg y Cyngor yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol a dim methiannau o bwys.

77 Y Cyngor oedd un o'r cyntaf yng Nghymru i ddechrau trawsnewid ei wasanaethau addysg yn sgîl lleihad yn nifer y disgyblion. Mae Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod bod dull

7 Cymwysterau Lefel 4 neu uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol e.e. tystysgrif Addysg Uwch, HND neu Radd.

cynyddrannol y Cyngor o wella addysg ers 1996 wedi bod yn flaengar ac wedi'i reoli'n dda. Mae'r Cyngor yn parhau â'i raglen o newid ac, o ganlyniad, mae ganddo'r lefelau isaf o leoedd gwag drud yn ei ysgolion o blith holl siroedd Cymru. Digwyddodd hyn er y cynnydd bach yn nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn 2009, ond roedd y duedd hon yn unol â phatrwm cenedlaethol ar draws y rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru. Roedd 10.8 y cant o leoedd gwag mewn ysgolion yn Sir Benfro yn 2008 ac 11.5 y cant yn 2009.

78 Dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2006 a 2010, mae perfformiad ysgolion y Cyngor wedi amrywio. Er bod perfformiad wedi gwella ar bob cam allweddol, nid oedd perfformiad disgyblion yn gyson mewn sawl maes. Hefyd, mae perfformiad disgyblion yn waeth na'r disgwyl mewn rhai pynciau o ystyried ffactorau yn ymwneud ag amddifadedd cymdeithasol[8] a bennir fel arfer yn nhermau nifer y disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim:

- Yn 2010, gwelwyd gwelliant yn Nangosydd Pwnc Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 1. Perfformiodd disgyblion yn dda iawn mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r safonau'n is na'r disgwyl mewn Saesneg ac yn benodol mewn Cymraeg iaith, o ystyried hawl disgyblion i gael prydau ysgol am ddim.

- Yn 2010, mae DPC Cyfnod Allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig. Mae'r disgyblion yn perfformio'n well na'r disgwyl mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, er bod safonau Cymraeg wedi gwella yn ystod 2010, maent yn parhau'n waeth na'r cyrhaeddiad a ddisgwylir o ystyried y lefelau o brydau ysgol am ddim.

- Mae DPC Cyfnod Allweddol 3 wedi gwella'n sylweddol yn 2010 a bellach mae perfformiad Sir Benfro yn sylweddol uwch na'r cyrhaeddiad a ddisgwylir o ystyried y lefel o brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth gystal â'r tri phwnc arall.

- Roedd perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn waeth na'r hyn a ddylai fod yn 2010 o'i fesur yn erbyn y cyrhaeddiad a ddisgwylir o ystyried y lefel o brydau ysgol am ddim mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ddangosyddion.

- Mae perfformiad disgyblion 17 oed yn parhau i wella. Bellach, sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog disgyblion 17 oed yn Sir Benfro yw'r uchaf yn y wlad.

- Yn 2009 (gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael), roedd absenoldeb heb ganiatâd mewn ysgolion cynradd wedi gwella a bellach ymysg y gorau yng Nghymru, ond mae lefelau absenoldeb gyda chaniatâd ymysg y gwaethaf yng Nghymru. Mae'r lefelau absenoldeb heb ganiatâd ac absenoldeb gyda chaniatâd yn gostwng yn raddol, ond maent yn uwch na'r disgwyl o hyd o ystyried y lefelau amddifadedd cymdeithasol a phrydau ysgol am ddim.

79 Bydd hi'n bwysig i'r Cyngor ddeall y rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad yn erbyn mesurau 2010, pam fod gwahaniaeth sylweddol rhwng absenoldeb heb ganiatâd ac absenoldeb gyda chaniatâd mewn ysgolion cynradd a pham fod lefelau absenoldeb ar lefel uwchradd yn rhy uchel o hyd, fel y gall wella ei berfformiad.

8 Defnyddir cyfran y disgyblion y mae hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim fel un o'r prif ddangosyddion ar gyfer amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae tlodi cymharol yn cael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol cyffredinol.

80 Yn 2008, syrthiodd nifer yr oedolion o oedran gweithio yn Sir Benfro a oedd â gradd neu gymhwyster cyfatebol islaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf ers tair blynedd. Mae'r Cyngor yn gweithio i wella sgiliau oedolion drwy gefnogi rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Cyfanswm y gyllideb gros ar gyfer ysgolion yn Sir Benfro yn 2010-11 yw £104 miliwn, neu £94 miliwn net, ac mae £78 miliwn wedi'i ddirprwyo i ysgolion lle y gwneir penderfyniadau ynghylch sut y caiff yr arian ei wario gan reolwyr ysgolion unigol.

81 Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ddirprwyo o 75 y cant, sydd yr un peth â chyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn gwario £4,300 (gros) fesul disgybl, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef £4,000.

82 Roedd gan ysgolion yn Sir Benfro gyfanswm o £3.9 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ym mis Mawrth 2010, a buddsoddwyd £2.4 miliwn o'r swm hwn gan ysgolion cynradd. Roedd gan y sir fwy o arian fesul disgybl mewn cronfeydd na chyfartaledd Cymru. Bob blwyddyn, mae llawer o ysgolion yn rhoi mwy o arian mewn cronfeydd wrth gefn ac, erbyn hyn, mae gan 61 y cant o'i hysgolion fwy na phump y cant o'u cyllidebau mewn cronfeydd wrth gefn, sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru, ac mae gan 15 y cant o'r ysgolion hyn dros 10 y cant o'u cyllidebau mewn cronfeydd wrth gefn. Er ei bod yn ddoeth cadw peth arian mewn cronfeydd wrth gefn, dylai'r Cyngor weithio gydag ysgolion i sicrhau bod y lefelau'n briodol ac nad yw arian y gellid ei ddefnyddio i wella addysg yn cael ei grynhoi'n ddiangen.

# A yw Cyngor Sir Penfro yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

83 Y disgwyliad oes yn Sir Benfro yw 81.9 o flynyddoedd ar gyfer merched a 77.2 o flynyddoedd ar gyfer dynion: sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau yng Nghymru. Ar adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2001, nodwyd bod gan 22.3 y cant o drigolion Sir Benfro salwch cyfyngus hirdymor, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru, sef 23.3 y cant.

84 Ymddengys bod trafnidiaeth yn broblem diogelwch fawr yn Sir Benfro sydd â'r ail gyfradd uchaf (y pen o'r boblogaeth) o achosion o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd. Yn rhannol, mae hyn am ei bod yn ardal wledig wasgaredig, felly mae pobl yn Sir Benfro yn fwy tebygol o deithio i'r gwaith mewn car, fan neu fws mini.

85 Ymddengys bod cyfran ffyrdd 'A' y sir sydd mewn cyflwr gwael yn uwch nag unrhyw gyngor arall heblaw am Bowys, er bod y Cyngor yn cwestiynu dibynadwyedd y data hwn a chywirdeb y teclyn a ddefnyddiwyd i fesur cyflwr y ffyrdd, ac mae'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae hefyd yn werth nodi y caiff 120km o 276.9km o ffyrdd 'A' Sir Benfro eu cynnal a'u cadw gan Lywodraeth y Cynulliad.

86 Mae gan Sir Benfro gyfradd cyflogaeth gymharol dda, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd wedi bod yn codi ers 2001 ond, fel gweddill y DU, cwympodd ychydig yn ystod y dirwasgiad yn 2008 a 2009. Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 3.2 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yn ddi-waith ac yn hawlio budd-daliadau: a oedd yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 3.6 y cant.

87 Roedd yr enillion llawn amser wythnosol cyfartalog gros fesul cartref yn 2009 yn uwch na'r cyfartaledd, ac roedd y ffigur ar gyfer Sir Benfro ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2007, roedd lefel yr incwm gwario a oedd ar gael i gartrefi yn £12,142 ac ymhlith yr isaf o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2007, mae'r incwm gwario y pen yn Sir Benfro wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru er bod y bwlch wedi cau ychydig dros y cyfnod hwn.

88 Mae Sir Benfro'n perfformio'n well na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â sawl dangosydd iechyd. Mae mesurau sy'n ymwneud â gordewdra ymhlith oedolion, oedolion sy'n smygu, babanod pwysau geni isel a beichiogrwydd ymhlith merched o dan 18 oed yn is yn Sir Benfro na chyfartaledd Cymru. Mae tueddiadau dros y pum i chwe mlynedd diwethaf yn dangos bod perfformiad Sir Benfro'n gwella dros amser mewn perthynas â llawer o'r dangosyddion hyn.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella'r amgylchedd yn y sir?

89 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun yn ei Gynllun Gwella er mwyn gwella'r amgylchedd yn y sir yw:

- byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leihau effaith tlodi;
- byddwn yn parhau i wella ein gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu;
- byddwn yn gweithio i wella ein hamgylchedd naturiol ein hunain a chynnal ein nodweddion diwylliannol a hanesyddol unigryw.

90 Mae'r tri amcan gwella hyn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, yn gwella ansawdd ei wasanaethau ac yn hyrwyddo tegwch a chynaliadwyedd.

91 Mae gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn cyrraedd targedau gwastraff pwysig ond mae'n cydnabod bod cyflawni hyn yn mynd yn anoddach bob blwyddyn. Mae'r gyfradd ailgylchu'n gwella. Anfonodd y Cyngor lai o wastraff y sir i safleoedd tirlenwi eleni na'r flwyddyn gynt ond mae'n parhau i

fod ymysg y gorau yng Nghymru, ac roedd y ffigur yn well na'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor yn llwyddo i gydbwyso perfformiad a buddsoddiad rhwng ei flaenoriaethau croes ac mae wedi llwyddo i gyrraedd targedau gwastraff Llywodraeth y Cynulliad hyd yma.

92 Oherwydd ansicrwydd ynghylch y mater hwn ar lefel genedlaethol, mae’n anodd rhagweld a fydd y Cyngor yn gallu gwella ymhellach neu gyrraedd y targed ailgylchu o 70 y cant erbyn 2025. Mae cyfraddau cyfranogiad y cyhoedd wedi bod yn uchel o ran y gwasanaethau ailgylchu y mae’r Cyngor yn eu cynnig. Mae angen iddo barhau i weithio gyda'r cyhoedd i ddeall rhesymau pobl dros beidio ag ailgylchu a chompostio mwy o'u gwastraff ac i fynd i'r afael â'r rhain.

93 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill am fod angen cyfleusterau newydd arnynt oll i brosesu mathau penodol o wastraff, megis bwyd. Ni fyddai'n cynrychioli gwerth am arian pe baent i gyd yn adeiladu eu cyfleusterau eu hunain. Dyna pam mae'r Cyngor yn arwain Pwyllgor Rheoli Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Yn ein Hasesiad Corfforaethol, nodwyd bod y pwyllgor wedi wynebu heriau mewn perthynas â chydweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, er bod y rhanbarth yn wynebu heriau parhaus a rhai newydd o hyd, mae cynnydd diweddar yn awgrymu bod parodrwydd i gydweithio.

94 Mae pwyllgor craffu'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad o wastraff ac ailgylchu, ac ar wahoddiad y Cyngor, rydym eisoes wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwn.

95 Mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y problemau erydu arfordirol a llifogydd a all godi wrth i lefel y môr godi a newidiadau yn yr hinsawdd ddod yn fwy amlwg dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn rhan o brosiect cynllunio rheoli traethlinau sydd wrthi'n nodi ac yn mapio risgiau sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol a llifogydd llanw. Bydd gwaith yn dechrau'n fuan i fapio'r perygl o lifogydd mewndirol, llifogydd dŵr wyneb a mathau eraill o lifogydd. Nod y gwaith hwn yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arno i'r Cyngor i wella cyd-nerthu cymunedol a'r ffordd y mae cymunedau yn ymateb i lifogydd ac erydu.

96 Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y sir gan gynnwys llifogydd, erydu arfordirol, a thrwy reoli'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

97 Mae gan y Cyngor dargedau clir ar gyfer lleihau ei ddefnydd o ynni, ac mae ganddo wybodaeth dda am ba mor dda y mae'n gwneud cynnydd. Mae'n meithrin dealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud ag ynni ar draws y Cyngor. Ond mae angen iddo ganolbwyntio'n fwy penodol ar gynaliadwyedd hirdymor, yr arbedion cost sylweddol uwch sy'n bosibl a buddiannau eraill y gellid eu cyflawni drwy edrych i'r dyfodol.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella'r economi yn y sir?

98 Yr amcanion gwella a bennwyd gan y Cyngor ar ei gyfer yn ei Gynllun Gwella ar gyfer gwella'r economi yn y sir yw:

- byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella potensial Sir Benfro i greu cyfoeth;
- byddwn yn parhau i wella canol ein trefi;
- byddwn yn cefnogi busnes lleol.

99 Mae'r tri amcan gwella hyn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, bydd rhai o'r amcanion hyn yn fwy anodd eu cyflawni yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Credwn y gallai'r Cyngor fod yn fwy clir

ynglŷn â'r ffaith y bydd yn rhaid iddo weithio gydag eraill i wella canol trefi yn y sir. Gall y Cyngor, wrth gwrs, gyfrannu'n helaeth at wella canol trefi, ond mae partneriaid eraill hefyd yn hanfodol er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

100 Mae'r Cyngor wedi chwarae rôl sy'n weithredol ac weithiau'n arloesol i gefnogi economi Sir Benfro, ac wedi denu arian sylweddol ar gyfer prosiectau. Mae'r Cyngor wedi addasu'r ffordd y mae'n datblygu ac yn adfywio Sir Benfro yn effeithiol. Mae dull y Cyngor yn ystyried anghenion economaidd y sir, strategaethau cenedlaethol, y ffynonellau ariannu a chymorth sydd ar gael a'r cyfleoedd a gynigir gan fuddsoddwyr mawr, yn arbennig yn y diwydiannau olew a nwy, hamdden a morgludiant. Mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio'n fwy ar annog busnesau i ddatblygu ar raddfa lai a chynaliadwy, am fod gwybodaeth yn dangos bod busnesau o'r fath yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth gwell. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi prosiectau mwy lleol, megis menter Cynnyrch Sir Benfro Uniongyrchol. Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella'r modd y mae'n dangos yn glir bod ei ymdrechion yn sicrhau bod cymunedau, busnesau a thrigolion Sir Benfro yn well eu byd.

101 Mae rhai o'i gynlluniau wedi dyddio ac angen eu diwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau mewnol yn ogystal ag effaith yr hinsawdd ariannol bresennol. Yn benodol, oherwydd y problemau ariannol byd-eang, mae cael gafael ar arian cyhoeddus ac arian arall ar gyfer prosiectau adfywio mawr a gwaith datblygu canol trefi yn debygol o fod hyd yn oed yn anoddach i'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

102 Mae'r cyngor yn gweithio'n dda gydag eraill i roi cyngor a chymorth i fusnesau lleol, neu'r rheini sy'n ystyried dechrau busnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith da o ran annog hyfforddiant sgiliau ar gyfer y gweithle gyda mentrau fel Return to Earn ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod o amser.

103 Mae perfformiad Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn bwysig ar gyfer cefnogi adfywiad Sir Benfro. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd wedi'i ddiweddaru sy'n rhoi pwysoliad uchel i ddatblygiadau economaidd yn ei bolisïau. Mae gan y Gwasanaeth gyfradd cymeradwyo uchel ar gyfer datblygiadau yn ymwneud â chyflogaeth ac mae'n chwarae rôl weithredol yn y gwaith o hwyluso datblygiadau tai fforddiadwy a chanol trefi. O ran agweddau eraill ar y modd y mae'n darparu gwasanaethau, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn rhoi darlun cymysg yn dilyn cyfnod o berfformio'n wael o ran yr amser a gymerir i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio. Mae bellach yn cymryd llawer llai o amser i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio ac mae'n fwy llwyddiannus wrth amddiffyn safbwynt y Cyngor mewn apeliadau cynllunio. Fodd bynnag, mae ei gynlluniau o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol wedi gwaethygu ac mae ei wasanaeth gorfodi wedi methu â chyflawni ei dargedau. Gallai'r Gwasanaeth wneud mwy i feincnodi ei berfformiad ei hun dros amser a'i gymharu â chynghorau tebyg eraill.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella mynediad yn y sir?

104 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun yn ei Gynllun Gwella er mwyn gwella mynediad yn y sir yw:

- byddwn yn gweithio i wella cysylltiadau cyfathrebu i, o ac yn Sir Benfro;
- byddwn yn parhau i wella mynediad at y gwasanaethau a ddarperir gennym;
- byddwn yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio;
- byddwn yn gwella mynediad i fannau gwyrdd.

105 Mae'r pedwar amcan gwella hwn yn addas ar gyfer Sir Benfro am eu bod yn adlewyrchu ei blaenoriaethau, yn helpu i wella ei pherfformiad yn y maes hwn yn ogystal â gwella mynediad at wasanaethau a'u hargaeledd. Gallai'r Cyngor nodi'n gliriach pa un a yw'r gwaith y mae'n ei wneud yn awr i wella cyflwr ei ffyrdd yn cael ei gynnwys yn yr amcanion gwella hyn ai peidio. Mae gan y Cyngor syniad da o beth sydd angen iddo ei wella ac mae'n gweithio'n agos gyda chynghorau a phartneriaid eraill yn y rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r rhwydwaith hwnnw'n casglu gwybodaeth newydd ar hyn o bryd am sut mae pobl yn teithio yn y rhanbarth, a bydd hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall yn well beth sydd angen iddo ei wneud i helpu pobl i deithio o amgylch y sir yn haws.

106 Mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ei wasanaethau a'i amserlenni bysiau yn y rhan fwyaf o'i arosfannau bysiau, ac mae'n well am wneud hyn na llawer o gynghorau eraill. Mae'r perfformiad yn erbyn y pum mesur a ddefnyddir gan y Cyngor i asesu boddhad y cyhoedd o ran gwasanaethau bysiau wedi parhau'n gymharol sefydlog dros y pum mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r cyhoedd yn arbennig o fodlon gyda gwasanaethau bysiau lleol, ond nid ydynt ychwaith yn arbennig o anfodlon. Fodd bynnag, mae'r cyhoedd yn fodlon iawn ar wasanaeth bysiau'r arfordir ac mae'r Cyngor hefyd wedi ennill nifer o wobrau am ei waith gyda thrafnidiaeth gymunedol ac mae'n gweithio i nodi ffyrdd o ddatblygu ei ddarpariaeth yn y maes hwn. Yn ddiweddar, enillodd y Cyngor wobr 'Partner y Flwyddyn' gan Gymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru a gwobr yr 'Awdurdod Lleol Gorau' gan Gymdeithas Cludiant Cymunedol y DU.

107 Gan fod cyflwr ffyrdd yn Sir Benfro wedi bod yn dirywio ers 2007-08, mae'r Cyngor bellach yn gweithio i'w gwella. Pontydd y sir yw'r pontydd sydd yn y cyflwr gorau yng Nghymru.

108 Mae cyfradd glendid y priffyrdd a'r tir perthnasol yn Sir Benfro wedi bod yn debyg i gyfartaledd Cymru ers 2005-06, ac yn 2008-09 ac yn 2009-10, roedd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

## A yw Cyngor Sir Penfro yn gwella diogelwch yn y sir?

109 Yr amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu iddo'i hun yn ei Gynllun Gwella er mwyn gwella diogelwch yn y sir yw:

- byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n lleihau ofn troseddau;
- byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau amddiffyn plant a ddarperir gennym;
- byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn y cartref.

110 Mae'r Cyngor wedi nodi pedwar amcan gwella er mwyn gwella diogelwch yn y sir ymhellach. Mae'r rhain yn ehangach na'r rheini sy'n ymwneud â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unig ac yn cynnwys materion fel gwasanaethau amddiffyn plant sy'n hyrwyddo tegwch a gwasanaeth o ansawdd gwell. Er nad yw troseddu nac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblemau mawr, mae'n addas i'r Cyngor eu nodi fel amcanion.

111 Mae gan y Cyngor hanes da i adeiladu arno. Sir Benfro yw un o'r siroedd mwyaf diogel yng Nghymru o ran trosedd ac anrhefn. Yn 2008-09 roedd cyfradd droseddu gyffredinol Sir Benfro ymysg yr isaf yng Nghymru; roedd achosion o drais ag anafiadau yn is na chyfartaledd Cymru; ac roedd achosion o droseddau meddiangar difrifol, megis bwrgleriaeth ac achosion o ddwyn cerbydau hefyd ymysg yr isaf yng Nghymru. Mae lefelau troseddu a lefelau ofn troseddau isel yn helpu i sicrhau bod Sir Benfro yn lle atyniadol i bobl fyw ynddo, ymweld ag ef a buddsoddi ynddo, sy'n helpu'r economi leol.

112 Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'r heddlu a phartneriaid lleol i helpu i gadw'r sir yn ddiogel. Mae gwasanaeth troseddau ieuenctid Sir Benfro, sy'n gwneud gwaith da i annog pobl ifanc i beidio ag aildroseddu, wedi gwella'n sylweddol ers 2007 a bellach mae'r gwasanaeth hwn yn well na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

113 Dros y blynyddoedd diwethaf bu cryn dipyn o ganolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n amddiffyn plant. Yn yr adolygiad o achosion difrifol a gwblhawyd yn 2010 cyfeiriwyd at y ffaith bod y Cyngor yn llwyddo i wneud trefniadau'n gyflym i amddiffyn y plant rhag cael eu cam-drin ymhellach. Mae Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Benfro wedi llunio cynllun gweithredu ar y cyd â byrddau diogelu plant lleol perthnasol eraill i sicrhau y caiff argymhellion o'r adolygiad eu rhoi ar waith. Caiff y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r cynllun gweithredu ei fonitro gan AGGCC yn 2010-11.

# Beth y dylai'r Cyngor ei wneud?

114 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

115 O ystyried ein gwaith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol:

- yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o dan adran 21 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; nac
- yn bwriadu gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol.

116 Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion wrth baratoi ei gynlluniau gwella a'i adolygiadau yn y dyfodol i'w helpu i wella ymhellach:

### Cynigion ar gyfer gwella

- cynnwys mwy o gysylltiadau uniongyrchol rhwng Amcanion Gwella, camau gweithredu gwasanaethau, mesurau a chanlyniadau perfformiad yng Nghynllun Gwella'r Cyngor;
- cyhoeddi mwy o fesurau yn ei gynlluniau gwella yn y dyfodol na'r hyn a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella eleni, fel y mae wedi'i wneud yn ei Adolygiad Gwella, er mwyn rhoi darlun cytbwys i'r cyhoedd o'i berfformiad;
- ystyried a oes angen iddo adolygu, blaenoriaethu a lleihau nifer yr amcanion gwella yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol.

Adolygiadau Gwella yn y dyfodol:

- nodi'n gliriach sut yr eir i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynaliadwyedd a chysylltu cyflawniadau'r Cyngor â'i feysydd ar gyfer gwella a'i ganlyniadau yn gliriach ac yn fwy amlwg.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac Asesiad Gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[9].

9 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac Asesiad Gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro

Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £322.4 miliwn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £32.6 miliwn ar brosiectau cyfalaf hefyd.

Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Sir Benfro oedd £864.32 y flwyddyn, a fydd yn cynyddu 3.60 y cant i £895.47 y flwyddyn ar gyfer 2010-11. Mae hyn yn cynnwys y praesept ar gyfer yr heddlu a'r cynghorau tref a chymuned. Mae tua 66 y cant o dai Sir Benfro yn y bandiau treth gyngor A i D.
*Ffynhonnell: StatsCymru, Cyf Swyddfa Archwilio Cymru: (71)*

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Penfro yn cynnwys: addysg; gofal cymdeithasol; tai; cynllunio; gwasanaethau amgylcheddol; llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Sir Benfro yw:

- Paul Davies, Preseli Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yw:

- Nicholas Bourne, Plaid Geidwadol Cymru
- Nerys Evans, Plaid Cymru
- Alun Davies, y Blaid Lafur
- Joyce Watson, y Blaid Lafur

*Ffynhonnell: Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyf Swyddfa Archwilio Cymru: (85)*

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Sir Benfro yw:

- Stephen Crabb, Preseli Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru

*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil Aelodau, Cyf Swyddfa Archwilio Cymru: (246)*

**Y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o Gynghorwyr (a elwir yn 'Aelodau' hefyd) sy'n cael eu hetholi bob pedair blynedd. Mae cynghorwyr yn atebol i drigolion eu rhanbarthau etholiadol ar sail ddemocrataidd. Mae gan Gynghorwyr ddyletswydd gyffredinol i'r gymuned gyfan ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rheini na bleidleisiodd drostynt.

Mae'n rhaid i Gynghorwyr gytuno i gydymffurfio â Chod Ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn rhoi cyngor iddynt ar y Cod Ymddygiad ac yn trefnu iddynt gael hyfforddiant arno.

Mae pob Cynghorydd yn cyfarfod i greu'r Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Yma, bydd Cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ffurf y Trefniadau Gweithredol, Rheolau Gweithdrefn a Chodau Ymddygiad.

Mae'r Cyngor hefyd yn delio â materion penodol yn ôl y gyfraith.

**Y Weithrediaeth**

Y Weithrediaeth yw'r adran yn y Cyngor sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Pe bai'n dymuno gwneud penderfyniad a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, byddai'n rhaid cyfeirio'r mater at y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys Arweinydd a benodir gan y Cyngor a Chabinet o hyd at naw Aelod arall a benodir gan yr Arweinydd, gan gynnwys Dirprwy Arweinydd.
*Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro, Cyf Swyddfa Archwilio Cymru: (189)*

Ceir 60 o Gynghorwyr yn Sir Benfro sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 39 o'r Blaid Annibynnol
- 5 o Blaid Geidwadol Cymru
- 5 o Blaid Cymru
- 5 o'r Blaid Lafur
- 6 Nad ydynt yn aelodau o unrhyw blaid

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro, Cyf Swyddfa Archwilio Cymru: (50)*

Tîm Rheoli Corfforaethol

- Prif Weithredwr: Bryn Parry-Jones
- Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden: Mark Lewis
- Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai: Jon Skone
- Cyfarwyddwr Datblygu: Steven Jones
- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant: Graham Longster
- Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a'r Amgylchedd: Ian Westley

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010:

**Casgliad cyffredinol**

Mae arweinyddiaeth sefydlog gref, a diwylliant o welliant parhaus, yn debygol iawn o gynnal gwelliant yn y dyfodol.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae arweinyddiaeth gref hirsefydlog, sefydlogrwydd a gwerthoedd sefydledig y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hysbys y mae'n eu hwynebu:

- mae gan y Cyngor hanes o arweinyddiaeth gorfforaethol gref a sefydlogrwydd sydd wedi sicrhau newid a gwelliant parhaus hyd yma;
- mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella yn seiliedig ar flaenoriaethau, gwerthoedd a safonau clir sydd wedi'u hymgorffori yn y diwylliant corfforaethol;
- mae trefniadau'r Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau hysbys.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Dengys dull y Cyngor o reoli a chefnogi gwelliant gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth a gwerthoedd:

- arweinyddiaeth gorfforaethol gref a gwerthoedd sefydledig y Cyngor yw'r ffactorau allweddol o ran cyflawni bwriadau strategol y Cyngor;
- yn gyffredinol, mae'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli adnoddau a phobl, a'i ddull o weithio mewn partneriaeth yn Sir Benfro, yn sylfaen dda ar gyfer cyflawni newid a gwelliant;
- mae'r Cyngor yn atgyfnerthu rhai agweddau ar weithio mewn partneriaeth a'r modd y mae'n rheoli ei bobl a'i berfformiad ymhellach.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Penfro

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailystyried y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol.

Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Penfro â'r gofynion o ran adrodd ar faterion ariannol a gwella perfformiad**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 27 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddais dystysgrif hefyd yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr;
- gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig mewn perthynas â Menter Cyllid Preifat ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i baratoi at weithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y ddau fater canlynol sydd wedi'u nodi fel blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod 2010-11 yn Natganiad y Cyngor am Reolaeth Fewnol:

- diweddaru prosesau rheoli risg a'u hadolygu'n barhaus;
- yr angen i fonitro cynnydd mewn perthynas â threfniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth a gwneud gwaith dilynol ar y defnydd o'r Gofrestr Cydweithio sy'n cael ei dreialu yn y Gyfarwyddiaeth Ddatblygu.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ond mae ganddo drefniadau rheoli cyllidebol effeithiol ac mae ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig (y cyfeirir atynt fel Blaengynllunio Ariannol) yn datblygu'n dda. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Roedd prosesau cynllunio gwelliant ffurfiol y Cyngor yn cynnwys dwy ddogfen benodol. Y Cyngor oedd un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ei amcanion gwella, ym mis Mai 2010 (mewn Cynllun Gwella), ac mae ei Adolygiad Gwella ar gyfer 2009-10 yn nodi bod cynnydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar y cyfan, mae'r dogfennau hyn yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor yn ystod 2009-10. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyfeirio at hyn yn fanylach, gan dynnu sylw at feysydd lle mae gwelliannau pellach o ran y broses o gyflwyno adroddiadau yn cael eu hystyried.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.



Ceri Stradling
Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1566,1710&parent_directory_id=646.

Mae'r agweddau fel a ganlyn:

**LLES**

1 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael
2 Byddwn yn hyrwyddo iechyd y cyhoedd a chyfleoedd i fyw'n iach
3 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leihau effaith tlodi
4 Byddwn yn cefnogi prosiectau a fydd yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu hintegreiddio
5 Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gennym

**YR AMGYLCHEDD**

6 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leihau effaith newid yn yr hinsawdd
7 Byddwn yn parhau i wella ein gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu
8 Byddwn yn gweithio i ehangu ein hamgylchedd naturiol a chynnal ein nodweddion diwylliannol a hanesyddol unigryw

**YR ECONOMI**

9 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella potensial Sir Benfro i greu cyfoeth
10 Byddwn yn parhau i wella canol ein trefi
11 Byddwn yn cefnogi busnes lleol

**CYMUNED**

12 Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau bywiog a chynaliadwy
13 Byddwn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol

**TAI**

14 Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cynyddu nifer y tai addas sydd ar gael
15 Byddwn yn parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor

**DYSGU**

16 Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella lefelau sgiliau yn Sir Benfro
17 Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau addysg a ddarperir gennym
18 Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol

**MYNEDIAD**

19 Byddwn yn gweithio i wella cysylltiadau cyfathrebu i, o ac yn Sir Benfro
20 Byddwn yn parhau i wella mynediad at y gwasanaethau a ddarperir gennym
21 Byddwn yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio
22 Byddwn yn gwella'r mynediad i fannau gwyrdd

**DIOGELWCH**

23 Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n lleihau ofn troseddau
24 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
25 Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau amddiffyn plant a ddarperir gennym
26 Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn y cartref

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol